# 2025 Rhif (Cy. 25-xx)

# ADDYSG, CYMRU

## CYFARWYDDYDAU SYDD WEDI EU GWNEUD O DAN ADRAN 123 O DDEDDF DYSGU A SGILIAU 2000

# Cyfarwyddydau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Darparu Gwaith Ieuenctid) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 123(1), (2), (4)(b) ac (c), a (5)(c) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**a**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**b**).

**Cymhwyso, enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Cyfarwyddydau hyn, sy'n gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru, yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Darparu Gwaith Ieuenctid) (Cymru) 2025 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "cyfnod adrodd" ("*reporting period*") yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill 2026 ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2031, a

(b) pob cyfnod olynol o bum mlynedd;

ystyr "cyhoeddi" ("*publish*") yw arddangos ar wefan yr awdurdod lleol ac mewn mannau eraill, gan gynnwys mannau digidol, y mae'n hawdd i bobl ifanc eu cyrchu a'u deall, ac mewn fformatau o'r fath;

ystyr "cymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid" ("*youth support worker qualification*") yw cymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid a nodir yn Atodlen 2 i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016(**c**);

(**a**) 2000 p. 21.
(**b**) Mae'r pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21) bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**c**) O.S. 2016/1183 (Cy. 288), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/551 (Cy. 86); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

ystyr “cymhwyster gweithiwr ieuenctid” (“*youth worker qualification*”) yw cymhwyster gweithiwr ieuenctid a nodir yn Atodlen 1 i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016;

ystyr “gwaith ieuenctid” (“*youth work*”) yw gwasanaethau a ddarperir o fewn y gwasanaeth cymorth ieuenctid gan ddefnyddio dull addysgol neilltuol sy’n seiliedig ar ymgysylltiad gwirfoddol gan bobl ifanc, ac sy’n cael ei gyflenwi gan bersonau sy’n meddu ar gymhwyster gweithiwr ieuenctid neu gymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid;

ystyr “gwasanaethau cymorth ieuenctid” (“*youth support services*”) yw gwasanaethau sy’n annog, yn galluogi neu’n cynorthwyo pobl ifanc yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant, i fanteisio ar gyfleoedd am gyflogaeth ac i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau;

ystyr “gweithiwr cymorth ieuenctid” (“*youth support worker*”) yw person sy’n dod o fewn y categori gweithiwr cymorth ieuenctid yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**a**);

ystyr “gweithiwr ieuenctid” (“*youth worker*”) yw person sy’n dod o fewn y categori gweithiwr ieuenctid yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014;

ystyr “person ifanc” (“*young person*”) yw person sydd wedi cyrraedd 11 oed, ond nid 26 oed;

ystyr “sefydliad gwirfoddol” (“*voluntary organisation*”) yw corff (heblaw corff sy’n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus) y mae ei weithgareddau’n cael eu cyflawni ac eithrio er elw ac y mae’r gweithgareddau hynny o fudd yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol i’r cyfan neu unrhyw ran o ardal yr awdurdod lleol.

**Darparu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid a Gwaith Ieuenctid**

**3.** Rhaid i awdurdod lleol—

(a) darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, neu sicrhau’r ddarpariaeth ohonynt, yn ei ardal, a

(b) cymryd rhan yn y ddarpariaeth o’r gwasanaethau hynny.

**4.** At ddibenion paragraff 3, rhaid i’r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid gynnwys gweithredu gwaith ieuenctid a’i reoli’n strategol mewn modd sydd—

(a) yn asesu anghenion pobl ifanc yn ardal yr awdurdod lleol,

(b) yn canfod maint a natur yr adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl ifanc a asesir yn is-baragraff (a), ac

(c) yn sicrhau, yn darparu ac yn cydlynu’r gwaith o gyflenwi’r adnoddau sydd eu hangen er mwyn ymateb i anghenion pobl ifanc.

**Yr hawlogaeth a’r cynnig gwaith ieuenctid**

**5.**—(1) Rhaid i’r ddarpariaeth o waith ieuenctid fod yn seiliedig ar hawlogaeth gwaith ieuenctid pobl ifanc yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

(2) Ystyr hawlogaeth gwaith ieuenctid yw gwaith ieuenctid—

(a) a ffurfir drwy ymgysylltu â phobl ifanc;

(b) sydd â’r nod o gyflwyno, diogelu a chryfhau gweithgareddau a gyflenwir yn Gymraeg a Saesneg, ac sy’n seiliedig ar yr hyn y mae pobl ifanc yn dweud bod arnynt ei angen neu ei eisiau yn eu hardal;

(c) sy’n darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a datblygu mewn gwahanol leoliadau addysgol a chymunedol, gan gynnwys lleoliadau digidol;

(**a**) 2014 dccc 5. Diwygiwyd Atodlen 2 gan O.S. 2016/1183.

(d) sy'n hwyluso cyfleoedd cyffredinol a chyfleoedd sydd wedi eu targedu fel y gall pobl ifanc gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau er mwyn gwella eu llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol;

(e) y mae'n hawdd i bobl ifanc eu cyrchu, yn unigol a chyda'u cyfoedion.

(3) Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod eu cynnig gwaith ieuenctid yn darparu'r gwaith ieuenctid a nodir yn is-baragraff (2).

(4) Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i hawliau pobl ifanc wrth gynllunio a darparu'r gwasanaethau a nodir ym mharagraffau 3, 4 a 5(1), (2) a (3).

(5) At ddibenion y paragraff hwn, ystyr y cynnig gwaith ieuenctid yw'r ddarpariaeth a bennir gan awdurdod lleol, y caniateir ei chyflenwi mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, partneriaid statudol neu sefydliadau gwirfoddol, i fodloni hawlogaeth gwaith ieuenctid pobl ifanc yn ei ardal.

**Darparu gwasanaethau gydag awdurdodau lleol eraill, partneriaid statudol neu sefydliadau gwirfoddol**

**6.** Caniateir darparu'r gwasanaethau a nodir ym mharagraffau 3, 4 a 5—

(a) ar y cyd â phartneriaid statudol neu sefydliadau gwirfoddol neu fel arall yn unol ag anghenion pobl ifanc yn yr ardal honno;

(b) mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, partneriaid statudol neu sefydliadau gwirfoddol er mwyn darparu'r gwasanaethau hynny ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

**7.** Rhaid i awdurdod lleol benodi swyddog arweiniol dynodedig sydd mewn swydd ddigon uchel ac a chanddo brofiad digonol i gydlynu'r gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc yn ei ardal, awdurdodau lleol eraill, partneriaid statudol a sefydliadau gwirfoddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid.

**Cynlluniau strategol gwaith ieuenctid**

**8.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol lunio cynllun strategol gwaith ieuenctid ("y cynllun strategol"), ar gyfer pob cyfnod adrodd, sydd wedi ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â phobl ifanc yn ei ardal, awdurdodau lleol eraill, partneriaid statudol a sefydliadau gwirfoddol.

(2) Rhaid i'r cynllun strategol gynnwys yr amcanion ar gyfer gwaith ieuenctid dros gyfnod y cynllun hwnnw, sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain—

(a) nodi sut y bydd y cynnig gwaith ieuenctid yn diwallu anghenion y pobl ifanc yn ardal yr awdurdod lleol;

(b) nodi sut y bydd anghydraddoldebau mewn gwaith ieuenctid yn cael sylw;

(c) asesu pa ddarpariaeth a wneir ar gyfer galwadau ar waith ieuenctid yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun.

(3) Rhaid i'r cynllun strategol nodi'r canlynol—

(a) y sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesu'r amcanion;

(b) sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio ar y cyd â phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol, i gynllunio a chyflenwi darpariaeth o fewn ei ardal;

(c) sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol, i gynllunio a chyflenwi darpariaeth drawsffiniol i bobl ifanc.

(4) Rhaid i'r cynllun strategol gynnwys—

(a) crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd at ddibenion is-baragraff (1), a

(b) crynodeb o'r ymatebion (os oes rhai) a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw.

**9.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno'r cynllun strategol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ganddynt.

DRAFT

(2) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cymeradwyo'r cynllun strategol fel y'i cyflwynwyd,

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun strategol gael ei addasu,

(c) cymeradwyo'r cynllun strategol gydag addasiadau, neu

(d) gwrthod y cynllun strategol.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod y cynllun strategol neu'n ei gwneud yn ofynnol ei addasu, rhaid i'r awdurdod lleol ddiwygio ac ailgyflwyno ei gynllun strategol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (1).

(4) Rhaid i awdurdod lleol anfon copi o'i gynllun strategol a gymeradwywyd—

(a) i bwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol hwnnw;

(b) i unrhyw gorff arall fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei gynllun strategol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan y paragraff hwn.

**10.**—(1) Caiff awdurdod lleol ddiwygio ei gynllun strategol yn ystod y cyfnod adrodd mewn ymateb i angen sydd wedi ei adnabod.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i ddiwygio ei gynllun strategol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adrodd.

(3) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno cynllun strategol diwygiedig a luniwyd o dan is-baragraff (1) neu (2) i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol i'w gymeradwyo ganddynt..

(4) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cymeradwyo'r cynllun strategol diwygiedig fel y'i cyflwynwyd,

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun strategol diwygiedig gael ei addasu,

(c) cymeradwyo'r cynllun strategol diwygiedig gydag addasiadau, neu

(d) gwrthod y cynllun strategol diwygiedig.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cynllun strategol diwygiedig neu'n ei gwneud yn ofynnol ei addasu, rhaid i'r awdurdod lleol ddiwygio'r cynllun strategol hwnnw a'i ailgyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (3).

(6) Rhaid i awdurdod lleol anfon copi o'i gynllun strategol diwygiedig a gymeradwywyd—

(a) i bwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol hwnnw;

(b) i unrhyw gorff arall fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

(7) Rhaid cyhoeddi cynllun strategol diwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun diwygiedig.

**11.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n cyflawni'r amcanion a nodir yn ei gynllun strategol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol, o bryd i'w gilydd, ac o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol o'r cyfnod adrodd, ymgynghori â'r pobl ifanc yn ei ardal ynghylch i ba raddau y mae'r awdurdod lleol hwnnw yn cyflawni'r amcanion a nodir yn ei gynllun strategol ac yn diwallu'r anghenion sydd wedi eu hadnabod ar gyfer y pobl ifanc hynny.

(3) Rhaid i awdurdod lleol, ar ôl cynnal yr adolygiadau a nodir yn is-baragraffau (1) a (2), gyhoeddi, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ym mhob blwyddyn ariannol ar ôl cyhoeddi cynllun strategol, adroddiad o'r cynnydd y mae wedi ei wneud o ran cyflawni ei amcanion a nodir yn y cynllun strategol hwnnw.

**Canllawiau**

**12.** Rhaid i awdurdodau lleol a'r personau hynny a nodir ym mharagraff 6 sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflenwi'r gwasanaethau a nodir ym mharagraffau 3, 4 a 5 roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ar ddarparu'r gwasanaethau hynny.

**Dirymu**

**13.** Mae Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002 wedi eu dirymu.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
At time on date

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cyfarwyddydau)*

Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn dirymu ac yn disodli Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002.

Maent yn cyfarwyddo awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, neu sicrhau'r ddarpariaeth ohonynt, yn eu hardal a chymryd rhan yn y ddarpariaeth o'r gwasanaethau hynny yn rhinwedd adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Yn benodol, maent yn nodi'r gwasanaethau a fydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc sydd wedi cyrraedd 11 oed ond nid 26 oed, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant, i fanteisio ar gyfleoedd am gyflogaeth ac i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Mae ymgysylltu â phobl ifanc, a'u cynnwys, yn ganolog i'r gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau a nodir yn y Cyfarwyddydau hyn, gan gynnwys cyflenwi gwaith ieuenctid.

Gwneir darpariaeth hefyd i bob awdurdod lleol ddatblygu cynllun strategol ar gyfer gwaith ieuenctid sy'n ymateb i anghenion pobl ifanc yn ei ardal ac sy'n amlinellu'r cynnig o weithgareddau a chymorth sydd ar gael. Rhaid i gynllun strategol o'r fath gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn ei gyhoeddi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Cyfarwyddydau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Cyfarwyddydau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg – Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

DRAFT